Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher yr 8fed o Dachwedd 2017 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.00yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Eifion Davies, y Cyng. Edward Thomas (Cadeirydd), y Cyng. Owen James, y Cyng. Robert Jones, y Cyng. Rebecca Butcher, y Cyng. Lesley Prosser. Mr Roger Phillips (Clerc Tref) Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Christoph Fischer, y Cyng. Geraint Price, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Gordon Kilby, y Cyng. Colin Jenkins, Mr Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Cof 188 / Tach / 17 Datganiadau o Fuddiant Dim

Cof 189 / Tach / 17 Cyfrifon i'w talu

Cyfrifon i'w talu	Net	TAW	Cyfanswm
Orchardweb (diweddaru'r wefan)	£ 120.00		£ 120.00*
Carreg Law (trwydded Parc Le Conquet)	£ 250.00	£ 50.00	£ 300.00*
Carreg Law (prydles Parc Penlan a ffi'r gofrestrfa tir)	£ 270.00	£ 50.00	£ 320.00*
Hallams Catering Equipment Ltd	£ 23.74	£ 4.75	£ 28.49*
Hugh Gwynne (Parc Le Conquet) DD604PLQ	£ 100.00	£ 20.00	£ 120.00*
Hugh Gwynne (Parc Penlan) glaswellt DD604PP	£ 900.00	£180.00	£ 1,080.00*
Hugh Gwynne (Parc Penlan) sbwriel DD 604PP	£ 100.00	£ 20.00	£ 120.00*
Hugh Gwynne (Parc Le Conquet) glaswellt 604PLQ	£ 680.00	£136.00	£ 816.00*
CGGC (Gwein cyflogres Hydref)	£ 20.25	£ 4.05	£ 24.30*
Lloyds British Testing (DD 616)	£ 920.00	£184.00	£ 1,104.00*
Swyddfa'r Post (Stampiau) (VIS)	£ 3.04		£ 3.04
W Kingsbury (VIS) (golau a chebl Neuadd y Sir)	£ 50.51		£ 50.51
Tâl Post y Clerc	£ 25.74		£ 25.74#
Charles B Sams (DD628) (golau tân gwyllt)	£ 308.75	£ 61.75	£ 370.50*
Pendragon Fireworks	£ 4,500.00	£900.00	£ 5,400.00*

dd - Debyd Uniongyrchol * - Bacs # - Siec

Argymhellwyd bod y rhain yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Rebecca Butcher ac eiliwyd gan y Cyng. Owen James. Roedd pawb o blaid.

Cof 190 / Tach / 17 Incwm a Dderbyniwyd Ers yr 11eg o Hydref 2017 hyd yn hyn

Arian Parod / Sieciau (cyfraniadau at y goeden Nadolig)	£ 350.00
Arian Parod / Sieciau (newid ac arian giât Tân Gwyllt)	£ 3,764.46
Arian Parod / Sieciau (elusen y Maer)	£ 276.00

Cof 191 / Tach / 17 Balansau'r Cyfrifon

Cyfrif Cyfredol CTLl (fel ar 05/11/17)	£ 25, 968.69
Cyfrif Cadw CTLl (fel ar 05/11/17)	£ 1,958.05
Cyfrif Maer CTLl (Barclays) (06 /11/17)	£ 2,391.01
Bond Adnau Llog Uchel	£ 30,000.00

Cof 192 / Tach / 17 Materion Ariannol Eraill

1.Ceisiadau am Gymorth Ariannol

a) Menter Bro Dinefwr.
Cynigodd y Cyng. Lesley Prosser bod y cais hwn yn cael ei wrthod, oherwydd gallai fod yna wrthdaro buddiannau o ran y prosiect arfaethedig i Fenter Bro Dinefwr i gymryd Neuadd y Sir ar brydles, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Rebecca Butcher. Roedd pawb o blaid.
Cynigodd y Cyng. Robert Jones bod y Clerc yn ysgrifennu at Fenter Bro Dinefwr, i holi a allent drefnu digwyddiad yn Llandeilo, i gyd-daro â Gŵyl Dathlu Dewi, fel y gwnaethant yn Rhydaman o'r blaen, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Eifion Davies. Roedd pawb o blaid.

b) Nyrsys Marie Curie yn Sir Gaerfyrddin.
Cynigodd y Cyng. Robert Jones rodd o £100. Eiliwyd hyn gan y Cyng. Owen James. Roedd pawb o blaid.

c) Cymorth Canser Macmillan.
Cynigodd y Cyng. Robert Jones rodd o £50. Eiliwyd hyn gan y Cyng. Lesley Prosser. Roedd pawb o blaid.

Cof 193/ Tach /17 Gohebiaeth yn ymwneud â Chyllid

1.Owen Phillips, Cydlynydd Digidol CSG, ynglŷn â'r prosiect trefi Wi-Fi.
Cost y prosiect 2 flynedd i'r Cyngor fyddai £5,572. Cynigodd y Cyng. Rebecca Butcher bod y Cyngor ddim yn ymuno â'r prosiect hwn, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Lesley Prosser. Roedd pawb o blaid.

Cof 194 / Tach /17 Goblygiadau Ariannol i Adroddiad y Swyddog Technegol

Roedd Mr Davies wedi dosbarthu ei adroddiad misol cyn y cyfarfod. Roedd Mr Davies wedi cyflwyno cais am 35 awr o gyflog ychwanegol, am yr amser a gymerodd i atgyweirio motiffau'r goleuadau Nadolig i'r Cyngor. Roedd hyn wedi cael ei gytuno gan yr Is-grŵp Goleuadau Nadolig, a wnaeth argymell bod y taliad yn cael ei wneud. Cynigodd y Cyng. Robert Jones bod y swm hwn yn cael ei dalu fel cyflog, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Rebecca Butcher. Roedd pawb o blaid.

Cof 195 / Tach / 17 Doedd dim eitemau arall o fusnes roedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.51yh.